**CYNGOR BWRDIESTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**AMODAU TRWYDDED CERBYDAU HACNI**

Rhaid i’r perchennog lynu wrth a chyflawni'r telerau ac amodau canlynol o ran cerbydau hacni.

1. Bydd pob cerbyd yn wyn ac eithrio'r cerbydau hynny sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Peilot Fflyd Werdd Llywodraeth Cymru.

2. Rhaid gosod arwyddion adlynol ar ran uchaf drws y gyrrwr a drws blaen y teithwyr yn nodi bod y cerbyd wedi’i drwyddedu gan y Cyngor ac yn cynnwys rhif y cerbyd mewn llythrennau heb fod yn llai na 3 modfedd o faint, heblaw am y rhai sy’n rhan o Gynllun Peilot y Fflyd Werdd.

3. Rhaid gosod ac arddangos plât y drwydded ar du allan cefn y cerbyd yn uniongyrchol ar neu'n union uwchben y bymper yn y fath fodd fel nad yw marc cofrestru'r cerbyd wedi'i guddio, gyda'r manylion yn wynebu tuag allan yn y fath fodd a lleoliad fel bod plât y drwydded i'w weld yn glir mewn golau dydd o'r ffordd y tu ôl i gefn y cerbyd.

4. Bydd disg y drwydded a phlât y drwydded yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a byddant yn cael eu dychwelyd i’r Cyngor o fewn saith niwrnod ar ôl i berchennog dderbyn hysbysiad priodol gan y Cyngor nad yw’r Drwydded Cerbyd Hacni ar gyfer y cerbyd dan sylw mewn grym mwyach.

5. Rhaid i’r perchennog, ar bob adeg tra bo’r drwydded yn gyfredol, feddu ar bolisi yswiriant cyfredol ar gyfer defnyddio’r cerbyd fel cerbyd hacni, a gyhoeddir ar sail trydydd parti o leiaf gan gwmni yswiriant cymeradwy ac sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig Ffyrdd 1988.

6. Rhaid arddangos copi o’r Dystysgrif Yswiriant gyfredol ar gyfer y cerbyd ar bob adeg ar ffenestr flaen y cerbyd at ddibenion archwiliad.

7. PROFI CERBYDAU

7.1 Fel canllaw polisi, rhaid i gerbydau a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 5 mlwydd oed o’u dyddiad cofrestru cyntaf neu ddefnydd cyntaf / dyddiad gweithgynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, ac eithrio cerbydau bws mini sydd â lifftiau cynffon awtomataidd parhaol a all fod hyd at 10 mlwydd oed ar gael eu trwyddedu’r tro cyntaf. Rhaid i geisiadau am gerbydau wedi'u haddasu y tu allan i gategori cymeradwyo Math o Gerbyd M1 gynnwys hanes gwasanaeth llawn ac ardystiad diogelwch priodol gan gynnwys Tystysgrif Cymeradwyo Cerbydau Unigol Gwirfoddol (IVA) a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA).

7.2 Bydd cerbydau hyd at 10 oed o’u dyddiad cofrestru cyntaf, neu'r defnydd cyntaf / dyddiad gweithgynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn.

7.3 Bydd cerbydau sy'n 10 oed neu'n hŷn o ddyddiad y cofrestru cyntaf, neu'r defnydd cyntaf / dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

8. Ni chewch ddangos unrhyw arwyddion neu hysbysebion yn, ar neu o’r cerbyd oni bai y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.

9. Rhaid bod gan bob cerbyd, oni bai am fysus mini, wregysau diogelwch yn y cefn wedi'u gosod yn unol â Rheoliadau Cerbydau Modur (Gosod Gwregysau Diogelwch) 1987.

10. Rhaid bod gan bob bws mini a drwyddedwyd o 1 Mawrth 1999 wregysau diogelwch ar bob sedd sy'n wynebu'r tu blaen a'u bod yn cael eu gosod yn unol â gofynion technegol a gosod rheoliadau 46-48 Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Cynhyrchu a Defnyddio) 1986 (fel y'i diwygiwyd).

11. Rhaid cario diffoddwr tân ag o leiaf 2.0kg o bowdr sych i fodloni gofynion Safonau Ewropeaidd BS EN3:1996, a hynny mewn man y gellir ei gyrchu'n hawdd i'w ddefnyddio a'i gynnal mewn cyflwr da bob amser. Gellir parhau i gario unrhyw offer diffodd tân a gymeradwywyd yn flaenorol tan ar ôl ei ddiwrnod dod i ben neu tan iddo fynd i gyflwr nad oes modd ei ddefnyddio.

12. Rhaid i berchennog cerbyd hacni gario bocs cymorth cyntaf yn y cerbyd sy'n cyrraedd safon "Bocs Maint Diwydiannol Rhif 1" o leiaf fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Safleoedd Swyddfa, Siopau a Rheilffordd 1963.

13. Rhaid i drwyddedai unrhyw gerbyd sydd wedi'i drwyddedu dan bolisi arbennig y Cyngor ar gyfer cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn sicrhau bod y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn bob amser ac i'r perwyl hwnnw yn cario rampiau ac ati sy'n angenrheidiol. Bydd uchafswm capasiti eistedd y cerbyd yn cael ei bennu yn y drwydded a rhaid iddo gynnwys darpariaeth ar gyfer o leiaf un gadair olwyn.

14. Ni chaiff y perchennog achosi na gadael na chaniatáu i nifer fwy o bobl, heb gynnwys y gyrrwr, gael eu cludo yn y cerbyd na nifer y personau a bennir yn y drwydded a ddarperir.

15. Rhaid i'r trwyddedai geisio unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer unrhyw safle y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat neu Gerbydau Hacni ac ni chaiff gymryd rhan mewn busnes o'r fath na chaniatáu iddo gael ei gynnal o unrhyw safle hyd nes y ceir unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol.

16. Rhaid marcio pob teiar sydd wedi'i ailfowldio / ailwadnu o 3 Chwefror 1999 a rhaid cydymffurfio â'r rhif BS cyfredol.

17. Rhaid bod modd agor cist gefn pob cerbyd math "car stad" sydd â mwy na phedair sedd o'r tu mewn a rhaid gosod arwyddion sy'n nodi "Allanfa Frys" a'r dull o agor y drws yn glir ar du mewn y drws.

18. Pan fo ffi'r drwydded yn cael ei thalu drwy siec sy'n cael ei gwrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded a gyhoeddwyd yn cael ei dirymu o'r dyddiad y rhoddir gwybod i'r trwyddedai am ddirymiad o'r fath.

19. Rhaid arddangos Tystysgrif a gyhoeddir gan y Cyngor sy'n nodi bod cerbyd wedi'i drwyddedu fel Cerbyd Hacni ar ochr chwith ffenestr flaen y cerbyd mewn safle sy'n galluogi iddi gael ei gweld yn hawdd o du blaen y cerbyd.

20. Rhaid i'r perchennog osod ac arddangos rhif y drwydded ar y cerbyd bob amser drwy gyfrwng disg drwydded, plât trwydded ac arwyddion drws a roddir gan y Cyngor i'r perchennog.

21. Rhaid gosod ac arddangos disg y drwydded y tu mewn i'r cerbyd yn y fath fodd a lleoliad fel bod y manylion ar gael yn glir ac yn weladwy i unrhyw deithiwr sy'n cael ei gludo yn y cerbyd.

22. Ar gais gan swyddog awdurdodedig, rhaid i'r perchennog gyflwyno Tystysgrif Yswiriant ar gyfer y cerbyd hwnnw a gyflwynwyd gan gwmni yswiriant cymeradwy i'r swyddog hwnnw i'w harchwilio at ddibenion Rhan VI Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (fel y'i diwygiwyd), ar yr amod, os yw'r perchennog yn methu â chyflwyno tystysgrif o'r fath i'r swyddog ar gais, y bydd y perchennog o fewn pum niwrnod i gais o'r fath yn ei chyflwyno i'r swyddog hwnnw neu i unrhyw swyddog awdurdodedig arall yn Swyddfeydd y Cyngor.

23. Rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid i ddyluniad y cerbyd, boed i'r peiriannau neu'r corff, a all ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gyflwyno'r cerbyd i'w archwilio ymhellach.

24. Rhaid i berchennog y Cerbyd Hacni arddangos y rhestr ffioedd a bennwyd gan y Cyngor y tu fewn i'r cerbyd, a rhaid i'r rhestr honno ddefnyddio llythrennau a ffigurau amlwg, ynghyd â hysbysiad yn dangos cyfyngiadau'r ffioedd a'r taliadau i'w codi.

25. Rhaid i'r perchennog hysbysu'r Cyngor o fewn 72 awr i unrhyw ddamwain i'r cerbyd lle mae difrod yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch, perfformiad a golwg y cerbyd.

26. Rhaid i'r perchennog sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio dan gontract neu dan gontract honedig ac eithrio ar sail y ffioedd a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacni.

27. Heb ragfarnu'r darpariaethau uchod, bydd y perchennog, ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y Cyngor, yn cyflwyno'r Cerbyd Hacni i'w archwilio a'i brofi gan neu ar ran y Cyngor.

28. Rhaid i'r cerbyd fod wedi ei ffitio â phedair olwyn ffordd, o leiaf bedwar drws a bod yn gerbyd gyriant llaw dde.

29. Rhaid i'r cerbyd fod o faint eistedd digonol i gario o leiaf bedwar a dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr. Bydd y capasiti eistedd, lle i'r pen a'r coesau fel a ganlyn:

(a) Uchder (Y tu mewn): Ni ddylai'r pellter o ben clustog y sedd i'r rhan isaf fod yn llai na 30 modfedd.

(b) Lle i'r Coesau: Ni ddylai'r pellter rhwng blaen y sedd gefn a chefn sedd y gyrrwr fod yn llai nag 8 modfedd pan fo sedd y gyrrwr mewn safle ar gyfer gyrrwr o daldra cyfartalog.

(c) Lled Seddi: Ni all lled y sedd gefn o'r sgwab i'r ymyl flaen fod yn llai na 17 modfedd.

Nid yw amod (c) uchod yn berthnasol i seddi sy'n wynebu'r cefn mewn cerbydau a adeiladwyd yn bwrpasol a gymeradwywyd gan y Cyngor.

(ch) Sedd Gefn (Hyd): Rhaid i hyd y sedd gefn a fesurir mewn llinell syth dros y rhan fwyaf o'i hyd fod yn ddigon i ganiatáu seddau digonol a fydd yn neilltuo o leiaf 16 modfedd y pen.

30. Os yw'r cerbyd yn gar stad, rhaid ei ffitio â gril / ffitiad sy'n ddigonol i atal bagiau sy'n cael eu cario yn y gist gefn rhag dod i gysylltiad gyda phersonau yn y sedd gefn.

31. MESURYDD AC OFFER

Rhaid i berchennog Cerbyd Hacni sicrhau bod mesurydd tacsi yn cael ei osod yn y cerbyd hwnnw sydd wedi'i greu, ei ychwanegu a'i gadw mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion canlynol, sef:

(a) rhaid gosod y mesurydd tacsi gydag allwedd, baner neu ddyfais arall y bydd yn rhoi peiriannau'r mesurydd tacsi ar waith wrth ei throi ac yn achosi i'r gair 'LLOGI' ymddangos ar wyneb y mesurydd;

(b) bydd allwedd, baner neu ddyfais o'r fath yn gallu cael ei chloi fel nad yw'r mesurydd yn cael ei droi ymlaen ac ni chofnodir ffi ar wyneb y mesurydd tacsi;

(c) pan fo'r mesurydd tacsi ymlaen caiff y ffi ei chofnodi ar y mesurydd tacsi mewn ffigurau clir, ni fydd y ffi yn fwy na'r ffi y mae'r perchennog neu'r gyrrwr yn gallu ei hawlio a'i chymryd am logi'r cerbyd yn ôl pellter yn unol â'r is-ddeddf yn hynny o beth;

(ch) caiff y gair "FFI" ei arddangos ar wyneb y mesurydd tacsi mewn llythrennau plaen i ddangos y ffi a godir wedi hynny;

(d) caiff y mesurydd tacsi ei osod mewn modd sy'n sicrhau bod yr holl lythrennau a'r ffigurau yn gwbl amlwg i unrhyw berson a gludir yn y cerbyd ac i'r diben hwnnw bydd y llythrennau a'r ffigurau yn gallu cael eu goleuo'n addas yn ystod unrhyw gyfnod llogi;

(dd) rhaid gosod y mesurydd tacsi a'r holl osodiadau i'r cerbyd gyda seliau neu offer arall fel na fydd modd i unrhyw berson ymyrryd â hwy ac eithrio drwy dorri, difrodi neu dynnu'r seliau neu'r offer arall yn barhaol.

32. Rhaid gosod arwydd to wedi'i oleuo ar y cerbyd hacni, sy'n nodi'r gair "TACSI" mewn llythrennau plaen ac sydd o leiaf ddwy fodfedd o uchder, gydag arwydd fflworoleuol pellach o ddimensiynau tebyg yn dangos y geiriau "I'W LOGI" ar ffenestr flaen y cerbyd ac wedi'i weirio i'r mesurydd tacsi er mwyn gallu ei ddiffodd wrth gludo teithwyr, pan fydd y mesurydd ar waith. Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo dyluniad yr arwyddion hyn. Ni fydd yr amod hwn yn berthnasol i dacsis tebyg i rai Llundain lle mae'r faner sy'n dynodi bod y tacsi 'I'W LOGI', sydd wedi'i atodi i'r mesurydd, yn amlwg i'w weld. Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i'r cerbydau hynny sy'n rhan o Gynllun Peilot y Fflyd Werdd.

33. Yn achos Trwyddedeion / Perchenogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyg eu Cerbydau Hacni, bydd y Trwyddedai / Perchennog yn cadw a darparu cofrestr addas gan nodi arno'r manylion canlynol o ran manylion y gyrrwr y rhentwyd, llogwyd, prydleswyd neu fenthycwyd y cerbyd iddo.

a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr.
b) Rhif y Bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Hurio Preifat ar gyfer y gyrrwr.
c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd a rentwyd, llogwyd, benthycwyd neu a brydleswyd.
ch) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf 12 mis mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu i'w harchwilio.